Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Y Ferch O'r Sger
# Greenfield Terrace
# Gogledd Corneli
# CF33 4LW

# Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2019

# gan

# Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Y Ferch O'r Sger

Lleolir Ysgol Y Ferch o’r Sgêr ym mhentref Gogledd Corneli yn awdurdod lleol Pen-y-bont-ar-ogwr. Mae 173 disgybl rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr, yn cynnwys 19 oed meithrin, rhan-amser. Fe’u rhennir yn saith dosbarth, gan gynnwys dau ddosbarth oed cymysg.

Tros dreigl tair blynedd, tua 13% o’r disgyblion sy’n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae hyn ychydig yn is na’r ganran genedlaethol, sy’n 18%. Ychydig o’r disgyblion sy’n siarad Cymraeg gartref. Mae’r ysgol wedi adnabod oddeutu 10% o’i disgyblion fel rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae hyn yn is na’r ganran genedlaethol, sy’n 21%.

Cychwynnodd y pennaeth yn ei swydd ym mis Medi 2009 ac arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Tachwedd 2011.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Mae ethos Cymreig cryf yn bodoli yn yr ysgol ac mae disgyblion yn dangos balchder tuag at ddiwylliant Cymru a'u cymuned leol. Ar y cyfan, mae'r addysgu yn gadarn ac mae athrawon yn cynnig ystod eang o brofiadau dysgu diddorol ac ymarferol i'r disgyblion, sy'n ennyn eu brwdfrydedd wrth ddysgu. Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu i fod yn ddysgwyr annibynnol. Maent yn cydweithio'n dda ag eraill gan roi cymorth a chefnogaeth i'w cyfoedion pan fo angen. Mae darpariaeth yr ysgol ar gyfer disgyblion bregus yn ganmoladwy ac mae'n ymateb yn dda i'w hanghenion. Ar draws yr ysgol, mae disgyblion yn gwrtais iawn ac yn ofalgar o'i gilydd.

Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae ansefydlogrwydd mewn staffio wedi cyfyngu ar allu arweinwyr i fynd i'r afael ag anghysondebau yn y ddarpariaeth a'r safonau. Bellach, mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn darparu arweiniad clir i waith yr ysgol, mae'r strwythur staffio cyfredol yn eglur ac mae'r arweinwyr ar bob lefel yn cyflawni eu dyletswyddau'n gydwybodol. Maent bellach yn defnyddio ystod bwrpasol o weithgareddau gwerthuso addas. O ganlyniad, mae ganddynt wybodaeth gynyddol gadarn am y safonau cyfredol sy'n eu galluogi i gynllunio a gweithredu gwelliannau addas.

| Maes arolygu | Barn |
|---|---|
| **Safonau** | **Digonol ac angen gwella** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Da** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Digonol ac angen gwella** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Digonol ac angen gwella** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Digonol ac angen gwella** |

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod arweinyddiaeth yr ysgol yn effeithiol ar bob lefel

A2 Mynd i'r afael â'r agweddau o ddiogelwch y safle a nodwyd yn ystod yr arolygiad

A3 Mynd i'r afael â'r diffyg yng nghyllideb yr ysgol

A4 Codi safonau ysgrifennu disgyblion

A5 Sicrhau bod gweithdrefnau asesu ffurfiannol a chrynodol yn effeithiol

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn adolygu cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Digonol ac angen gwella**

Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae rhan fwyaf y disgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol, yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu. Maent yn adeiladu ar ddysgu blaenorol yn effeithiol ac yn cymhwyso eu medrau meddwl, creadigol a datrys problemau yn rheolaidd ar draws ystod o feysydd dysgu.

Ar draws yr ysgol, mae rhan fwyaf y disgyblion yn dangos agwedd gadarnhaol tuag at y Gymraeg, a balchder yn eu Cymreictod. Er bod llawer o ddisgyblion y dosbarth meithrin yn cyrraedd yr ysgol gydag ond ychydig iawn o Gymraeg, maent yn caffael yr iaith yn fuan. Ar draws y cyfnod sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwrando ar, ac yn ymateb i, gyfarwyddiadau oedolion yn dda. Ym Mlwyddyn 1, mae llawer yn ailadrodd stori'r Lindysyn Bach Llwglyd yn synhwyrol gan ddefnyddio geirfa benodol o fewn y stori. Ar frig y cyfnod, mae llawer yn sgwrsio'n hyderus mewn amrediad ehangach o gyd-destunau, er enghraifft wrth roi cyfarwyddiadau i declyn electronig i ddod o hyd i'r jiráff sy'n cuddio yn y jyngl. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn adeiladu ar eu medrau llafar yn effeithiol. Erbyn iddynt gyrraedd brig yr ysgol, mae'r rhan fwyaf yn mynegi eu hunain yn aeddfed yn y ddwy iaith, er enghraifft wrth drafod nodweddion stori arswyd.

Mae medrau darllen llawer o ddisgyblion y cyfnod sylfaen yn datblygu'n briodol. Maent yn defnyddio amrywiaeth addas o strategaethau i ddarllen geiriau anghyfarwydd. Erbyn diwedd y cyfnod, mae llawer yn darllen testun gyda chywirdeb priodol. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu'n ddarllenwyr hyderus yn y ddwy iaith. Mae rhan fwyaf yn defnyddio uwch fedrau darllen yn llwyddiannus i gywain gwybodaeth, er enghraifft am ganolfannau diddorol yng Nghymru ac am y 'Great Barrier Reef'.

Yn y cyfnod sylfaen, mae mwyafrif y disgyblion yn gwneud cynnydd priodol yn eu medrau ysgrifennu ac yn datblygu eu syniadau'n synhwyrol gan ddefnyddio atalnodi sylfaenol. Erbyn diwedd y cyfnod, mae'r mwyafrif yn sillafu geiriau cyfarwydd yn gywir ac yn creu darnau byr addas, er enghraifft, wrth ysgrifennu adroddiad papur newydd yn dilyn eu hymweliad â phentref Corneli. Fodd bynnag, nid yw disgyblion yn ysgrifennu'n rhydd yn ddigon cyson ar draws y meysydd dysgu. Maent yn gorddefnyddio fframweithiau ysgrifennu, sy'n cyfyngu eu hysgrifennu annibynnol. Ar draws cyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd priodol wrth ysgrifennu yn y Gymraeg a Saesneg. Mae'r lleiafrif o'r disgyblion sy'n ysgrifennu i safon uchel mewn gwersi iaith yn defnyddio cystrawennau cadarn ac yn cynnwys ystod o eirfa bwrpasol i greu effeithiau. Maent wedi gwneud hyn yn effeithiol wrth ysgrifennu ymson yn seiliedig ar chwedl Y Ferch o Gefn Ydfa, er enghraifft. Fodd bynnag, nid yw disgyblion bob tro'n cymhwyso'u medrau ysgrifennu i'r un safon ar draws y cwricwlwm, yn enwedig yn y Gymraeg.

Mae medrau rhifedd rhan fwyaf o ddisgyblion y cyfnod sylfaen yn datblygu'n gadarn. Maent yn adnabod siapau a thrin data'n effeithiol mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn cyfrifo'n hyderus, er enghraifft wrth ddyfalu a chyfrifo sawl ciwb siwgr sydd mewn gwahanol rawnfwyd brecwast. Erbyn diwedd y cyfnod, mae llawer yn cymhwyso'u medrau yn annibynnol, er enghraifft wrth ddefnyddio gwahanol ddarnau arian wrth chwarae rôl yn siop y dosbarth.

Mae gan ran fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 ddealltwriaeth gadarn o strategaethau rhif, cyfaint, mesur a ffracsiynau. Maent yn defnyddio eu medrau rhif yn hyderus i gyfrifo arwynebedd a pherimedrau siapiau cyfarwydd ac anghyfarwydd, er enghraifft. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn cymhwyso eu medrau rhifedd yn dda wrth ddatrys problemau mewn gwersi mathemateg. Fodd bynnag nid yw disgyblion yn cymhwyso eu medrau rhifedd yn gyson nac i'r un lefel ar draws y cwricwlwm.

Mae medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) rhan fwyaf o ddisgyblion y cyfnod sylfaen yn gadarn. Maent yn defnyddio amrediad o raglenni cyfrifiadurol aml-gyfrwng yn effeithiol. Erbyn diwedd y cyfnod, mae'r rhan fwyaf yn defnyddio llechi electronig yn hyderus, er enghraifft wrth gyflwyno stori'r 'Lindysyn Llwglyd Iawn'. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn defnyddio'u medrau TGCh yn fedrus. Maent yn defnyddio offer yn greadigol i greu cyflwyniadau aml-gyfrwng ar yr Ail Ryfel Byd ac yn defnyddio fformiwla yn gywir i gyfrifo cost bwyd ar gyfer gofodwyr.

### Lles ac agweddau at ddysgu: Da

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn mwynhau'r ysgol ac yn teimlo'n ddiogel yno. Maent yn gwrtais tuag at ei gilydd, staff ac ymwelwyr ac yn dangos balchder yn eu hysgol a'u cymuned leol. Mae'r rhan fwyaf yn ofalgar iawn o'i gilydd ac yn dangos parch tuag at eraill mewn gwersi, yn y neuadd ginio ac ar fuarth yr ysgol. Mae safonau ymddygiad rhan fwyaf y disgyblion yn dda.

Mae gan ran fwyaf y disgyblion ddealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd yfed, bwyta'n iach a gwneud ymarfer corff yn rheolaidd. Caiff hyn ei atgyfnerthu'n llwyddiannus wrth i lawer fynychu ystod eang o weithgareddau corfforol a drefnir o fewn y cwricwlwm, ynghyd â'r clybiau allgyrsiol a ddarperir iddynt.

Mae llawer o ddisgyblion yn ymgymryd â chyfrifoldebau yn frwdfrydig o fewn ystod eang o bwyllgorau priodol. Enghraifft dda o hyn yw'r modd y mae aelodau o'r pwyllgor lles wedi casglu gwybodaeth am hoff lysiau eu cyfoedion, a'i chyflwyno i'r gogyddes er mwyn paratoi cinio iachus iddynt. Mae aelodau'r pwyllgorau yn deall eu bod yn cynrychioli safbwyntiau disgyblion eraill o fewn cymuned yr ysgol ac yn rhoi adborth iddynt am eu trafodaethau a'u penderfyniadau yn dilyn cyfarfodydd. Maent yn cymryd rhan yn frwdfrydig mewn amrywiaeth o ddigwyddiadau; er enghraifft, mae'r arweinwyr digidol yn arwain staff, rhieni, llywodraethwyr a disgyblion yn effeithiol er mwyn sicrhau eu bod yn cadw'n ddiogel ar lein. O ganlyniad, mae gwybodaeth a dealltwriaeth e-ddiogelwch bron pob disgybl yn dda.

Trwy gwricwlwm cyffrous yr ysgol, mae gwybodaeth llawer o ddisgyblion am ddinasyddiaeth fyd-eang yn datblygu'n fwriadus.

Mae agweddau'r rhan fwyaf o ddisgyblion tuag at eu dysgu yn gadarn. Maent yn dangos brwdfrydedd a chymhelliant yn eu gwaith ac yn ymroi i'w tasgau yn ddiwyd gan gadw ar dasg am gyfnodau penodol. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn trin a thrafod eu gwaith yn hyderus ac yn lleisio'u barn am yr hyn yr hoffent ei ddysgu.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu i fod yn ddysgwyr annibynnol. Maent yn cydweithio'n dda ag eraill gan roi cymorth a chefnogaeth i'w cyfoedion pan fo angen. Mae hyn yn gryfder yn yr ysgol. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn gweithio'n frwdfrydig ac yn dangos nad oes ofn arnynt gwneud camgymeriadau er mwyn llwyddo. Mae'r disgyblion yn fodlon cymryd risg wrth ddysgu ac yn gweld camgymeriadau fel rhan annatod o'r broses ddysgu.

Mae llawer o ddisgyblion yn cyfrannu'n rheolaidd at weithgareddau yn y gymuned. Maent yn cystadlu mewn gweithgareddau chwaraeon, yn ymweld â nifer o fannau diddorol ac yn cymryd rhan mewn cyngherddau a gwasanaethau yn rheolaidd. Mae hyn yn datblygu dealltwriaeth y disgyblion o bwysigrwydd bod yn ddinasyddion cydwybodol o fewn eu cymuned leol ac yn eu paratoi'n dda ar gyfer y dyfodol.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Digonol ac angen gwella**

Mae rhan fwyaf o'r athrawon yn darparu ystod eang o brofiadau dysgu cyfoethog i ddisgyblion, sy'n ennyn eu diddordeb yn llwyddiannus a'u datblygu'n unigolion hyderus a chreadigol. Mae'r staff yn modelu iaith lafar dda sy'n cael effaith gadarnhaol ar fedrau llafar y disgyblion. Mae athrawon yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i'r disgyblion ddatblygu eu medrau meddwl mewn ystod eang o gyd-destunau ar draws y cwricwlwm. O ganlyniad, mae llawer o'r disgyblion yn cymryd perchnogaeth o'u dysgu. Mewn llawer o'r dosbarthiadau, lle mae'r addysgu yn fwyaf effeithiol, mae cyflwyniadau'r athrawon yn ddiddorol, yn fywiog, ac yn herio'r disgyblion yn llwyddiannus. Yn y dosbarthiadau hyn, mae'r athrawon yn holi'n fedrus i ymestyn gwybodaeth a dealltwriaeth y disgyblion yn dda. Maent yn eu hannog i feddwl a rhesymu eu hatebion ar lefel uwch, er enghraifft mewn gweithgareddau rhif sy'n seiliedig ar ffracsiynau, degolion a chanrannau. Mewn ychydig o ddosbarthiadau, lle mae'r addysgu'n llai effeithiol, mae athrawon yn arwain gormod ar y gweithgareddau. Mae hyn yn cyfyngu ar ychydig o'r disgyblion rhag datblygu'n ddysgwyr annibynnol. Yn y dosbarthiadau hyn, nid yw'r tasgau bob amser yn ddigon heriol i sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn datblygu'n ddysgwyr uchelgeisiol, yn enwedig mewn gweithgareddau lle mae disgyblion yn arwain eu dysgu eu hunain.

Mae'r athrawon yn cynnig adborth llafar ac ysgrifenedig priodol i ddisgyblion er mwyn iddynt wybod pa mor dda y maent yn cyflawni. Fodd bynnag, nid yw'r adborth bob amser yn rhoi digon o arweiniad i ddisgyblion ddeall sut i wella eu gwaith. Prin iawn yw'r cyfleoedd i ddisgyblion fyfyrio ar adborth yr athrawon a gwella eu hymdrechion. O ganlyniad, nid oes gan leiafrif o ddisgyblion ddealltwriaeth ddigon cadarn o'r camau nesaf yn eu dysgu.

Mae'r ysgol wrthi'n addasu ei chynlluniau gwaith i ymateb i ofynion y cwricwlwm newydd i Gymru. Mae'r cynllunio ar gyfer datblygu creadigrwydd y disgyblion yn gadarn. Er enghraifft, maent wedi astudio ac efelychu gwaith arlunwyr fel Rhiannon Roberts a Guiseppe Arcimboldro yn ddiweddar.

Mae egwyddorion y cyfnod sylfaen wedi gwreiddio'n llawn, sy'n cael effaith gadarnhaol ar fedrau annibynnol rhan fwyaf y disgyblion. Mae'r athrawon ar draws yr ysgol yn gwneud defnydd effeithiol a hyblyg o adnoddau'r ysgol, gan gynnwys yr ardaloedd tu allan, er mwyn datblygu medrau'r disgyblion yn gadarn.

Sicrheir cyfleoedd buddiol i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd y disgyblion ar draws y cwricwlwm. Mae'r ffocws ar lafaredd a darllen wedi cael effaith gadarnhaol ar fedrau llafar y disgyblion. Fodd bynnag, mae'r cyfleoedd i gryfhau medrau ysgrifennu rhydd ac estynedig y disgyblion mewn amrywiol bynciau ac agweddau yn gyfyng, yn enwedig ar frig y cyfnod sylfaen. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer TGCh yn gadarn ac mae'r athrawon wedi ymgorffori disgwyliadau'r fframwaith cymhwysedd digidol yn gyson ar draws y meysydd dysgu a'r cwricwlwm.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Digonol ac angen gwella**

Mae ysgol yn gymuned groesawgar a chynhwysol sy’n darparu gofal, cymorth ac arweiniad cadarn i’w disgyblion. Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer bwyta ac yfed yn iach ac mae’r staff yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion gadw’n heini trwy drefnu amrywiaeth eang o weithgareddau a chlybiau chwaraeon iddynt.

Mae’r ysgol yn cydweithio’n effeithiol iawn â nifer o asiantaethau arbenigol. Mae’r berthynas sy’n bodoli rhwng yr ysgol, y gwasanaethau cymdeithasol a’r gwasanaeth troseddwyr ifanc yn cefnogi disgyblion bregus a’u teuluoedd yn llwyddiannus. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad lles ac emosiynol y disgyblion.

Mae darpariaeth yr ysgol ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn effeithiol ac yn sicrhau bod rhan fwyaf y disgyblion hyn yn gwneud cynnydd da yn eu medrau dysgu. Mae’r staff yn darparu cynhaliaeth effeithiol iddynt, sy’n eu cefnogi’n bwrpasol mewn gweithgareddau llythrennedd a rhifedd. Mae hyn yn sicrhau cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion gydweithio â’u cyfoedion ar lefel sy’n briodol i’w hoed a’u gallu. Mae hyn yn cyfrannu’n effeithiol at eu hagweddau tuag at eu dysgu. Mae’r cynlluniau addysgol unigol o ansawdd da ac yn cynnwys targedau penodol ar eu cyfer. Mae’r rhaglenni ymyrraeth yn bwrpasol ac yn bodloni gofynion bron pob disgybl. Mae’r rhain yn sicrhau eu bod yn derbyn y lefel berthnasol o gefnogaeth. O ganlyniad, mae rhan fwyaf o’r disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn o’u mannau cychwyn.

Mae’r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau creadigol disgyblion yn gadarn dda. Mae cyfleoedd niferus i ddisgyblion berfformio a chymryd rhan mewn cyngherddau, gwasanaethau a chystadlu mewn eisteddfodau. Mae hyn yn cyfrannu’n llwyddiannus at fagu hunanhyder a’u hymwybyddiaeth o etifeddiaeth Gymreig o fewn eu cymuned leol.

Mae’r ysgol yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion arwain agweddau penodol o waith yr ysgol. Enghraifft dda o hyn yw gwaith brwdfrydig y pwyllgor Cymreictod wrth hybu defnydd o’r iaith Gymraeg ym mywyd dyddiol yr ysgol. O ganlyniad, mae rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio’r Gymraeg yn naturiol yn y gwersi ac wrth chwarae.

Mae pwyslais amlwg ac effeithiol ym mywyd yr ysgol ar ddatblygu gwerthoedd disgyblion. Mae agweddau ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn cael eu hyrwyddo’n llwyddiannus drwy’r cwricwlwm, gwasanaethau cyd-addoli a’r celfyddydau creadigol.

Mae’r ysgol yn olrhain cynnydd y disgyblion yn effeithiol. Mae’r trefniadau yn mesur cyrhaeddiad y disgyblion yn erbyn targedau penodol yn briodol. Ar y cyfan, mae’r athrawon a’r arweinwyr eraill yn defnyddio’r wybodaeth sy’n deillio o’r trefniadau hyn yn addas i adnabod y disgyblion sydd angen cymorth ychwanegol mewn llythrennedd a rhifedd. Fodd bynnag, nid yw asesiadau bob amser yn ddigon dibynadwy. O ganlyniad, nid yw arweinwyr bob amser wedi adnabod anghenion ychydig o’r disgyblion yn ddigon cynnar.

Mae’r ysgol yn cydweithio’n gynhyrchiol gyda rhieni i’w galluogi i gefnogi dysgu eu plant. Er enghraifft, mae’r ysgol yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i rieni fynychu gweithdai fel dysgu trwy chwarae a rhifedd ynghyd â sesiynau penodol ar sut i helpu eu plant gyda’u gwaith cartref. Mae hyn yn galluogi rhieni i gefnogi addysg eu plant.

Yn ystod yr arolygiad, codwyd ychydig o faterion am ddiogelwch y safle. Er bod yr ysgol wedi ymateb i nifer o’r agweddau a godwyd, mae ei threfniadau ar gyfer diogelu yn parhau i fod yn destun ychydig o bryder.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Digonol ac angen gwella**

Mae gweledigaeth y pennaeth wedi’i sefydlu’n gadarn ar sicrhau lles a safonau uchel pob disgybl. Er bod yr ysgol wedi bod trwy gyfnod o ansefydlogrwydd o ran staffio, mae’r athrawon a’r cynorthwywyr yn cydweithio’n agos ac effeithiol i greu ethos creadigol a Chymreig ei naws ar gyfer y disgyblion. Mae’r strwythur staffio cyfredol yn glir ac mae’r arweinwyr ar bob lefel yn cyflawni eu dyletswyddau yn gydwybodol. Maent yn dechrau datblygu eu medrau arweinyddiaeth yn effeithiol trwy gymryd cyfrifoldeb am arwain gwelliannau yn y meysydd maent yn gyfrifol amdanynt. Fodd bynnag, nid ydynt ar hyn o bryd yn chwarae rhan ddigon allweddol yn y gweithdrefnau monitro ansawdd nac yn gwerthuso effaith y ddarpariaeth ar gynnydd a safonau’r disgyblion.

Mae aelodau’r corff llywodraethol yn gefnogol iawn ac yn adnabod cymuned yr ysgol yn dda. Mae llawer o aelodau’r corff yn gymharol newydd i’w rôl. Maent yn derbyn adroddiadau cynhwysfawr gan y pennaeth am waith yr ysgol. O ganlyniad, maent yn adnabod cryfderau’r ysgol a’r meysydd sydd angen eu gwella yn gadarn. Fodd bynnag, dros amser, nid yw’r corff llywodraethol wedi cydweithio’n ddigon effeithiol gydag arweinwyr i osod cyfeiriad strategol clir i’r ysgol er mwyn sicrhau gwelliannau parhaus.

Mae gweithdrefnau hunanwerthuso’r ysgol yn gynhwysfawr, yn seiliedig ar ystod eang o dystiolaeth uniongyrchol, ac yn rhoi darlun cywir o’r agweddau pwysig sydd angen eu gwella. Mae cysylltiad agos rhwng canfyddiadau’r weithdrefn hunanwerthuso â blaenoriaethau cynllun datblygu’r ysgol. Mae’r cynllun yn cynnwys nifer addas o flaenoriaethau i’w cyflawni o fewn amser realistig. Fodd bynnag, nid yw’r meini prawf llwyddiant na’r trefniadau monitro bob amser yn ddigon eglur. Mae hyn yn cyfyngu ar allu’r arweinwyr i fesur effaith y cynllun ar ansawdd y ddarpariaeth a safonau’r disgyblion.

Mae’r trefniadau rheoli perfformiad yn effeithlon. Mae’r ymweliadau ag ysgolion eraill a’r cyfleoedd i’r athrawon arsylwi ar wersi ei gilydd yn cyfrannu’n dda at ansawdd yr addysgu cadarn sy’n bodoli yn yr ysgol. Mae’r ysgol yn manteisio ar y cyfle i gydweithio ag ysgolion tu hwnt i’w hardal leol er mwyn cyfoethogi profiadau dysgu’r disgyblion. Enghraifft lwyddiannus o hyn yw’r modd y mae’r ysgolion wedi rhannu arbenigeddau athrawon ym myd y ddawns, drama a chelf. O ganlyniad, mae’r disgyblion yn datblygu medrau creadigol da. Mae’r ysgol yn cydweithio’n agos ag ysgolion y clwstwr i safoni a chymedroli gwaith y disgyblion. Fodd bynnag, nid yw trefniadau mewnol yr ysgol bob amser yn ddigon cadarn i sicrhau dilysrwydd a chywirdeb eu hasesiadau.

Mae gan yr ysgol ddigon o athrawon a staff cymorth sy’n gymwys i ddarparu’r cwricwlwm ac i gynnig cefnogaeth briodol i’r disgyblion. Gwneir defnydd effeithiol iawn o’r holl ardaloedd dysgu, gan gynnwys y rhai dan do ac awyr agored. Mae’r ysgol yn defnyddio’r grant datblygu disgyblion yn bwrpasol i wella medrau rhifedd a llythrennedd y disgyblion sy’n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. O ganlyniad, mae rhan fwyaf o’r disgyblion hyn yn gwneud cynnydd da o’u mannau

cychwyn.  Dros gyfnod, nid yw’r ysgol wedi defnyddio ei hadnoddau ariannol yn ddigon effeithlon nac effeithiol.  Mae’r ysgol bellach yn cydweithio â’r awdurdod lleol er mwyn lleihau'r diffyg sylweddol sy’n bodoli yn ei chyllideb.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

© Hawlfraint y Goron 2019: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 09/05/2019